



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Craig Y Deryn

**Llanegryn
Tywyn
LL36 9SG**

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2024

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Craig Y Deryn

Enw'r darparwr	Ysgol Craig Y Deryn
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	*
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	98
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	79
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	7
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	5.9%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	8.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	39.2%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2013
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	07/03/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	01/07/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](http://gov.wales)

Adroddiad ar Ysgol Craig Y Deryn
Gorffennaf 2024

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

Trosolwg

Mae Ysgol Craig y Deryn yn gymuned hapus a gweithgar lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a darperir cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu a chwarae gyda'u ffrindiau ar draws yr ysgol, sy'n cyfrannu'n gadarn at yr ymdeimlad cryf o berthyn. Yn ystod gweithgareddau ac amseroedd egwyl a chinio, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn rhagorol.

Mae arweinwyr, athrawon a'r staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol i gynnal a chefnogi lles y dysgwyr a'u cydweithwyr. Mae staff yn rhoi ystyriaeth dda i syniadau'r disgyblion wrth ddatblygu gweithgareddau, ac yn sicrhau cefnogaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd angen hwb ychwanegol gyda'u dysgu. Mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu agweddau cynhwysol at eraill, er enghraifft wrth ddysgu am brofiadau athletwyr sy'n wynebu heriau corfforol. Gwna'r staff ddefnydd effeithiol o'r amgylchedd allanol i hyrwyddo lles a dysgu'r disgyblion.

Ar fynediad i'r ysgol, mae'r disgyblion yn datblygu annibyniaeth yn dda ac yn dyfalbarhau'n gyson wrth gyflawni gwahanol dasgau. At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau cyfoethog sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu llawer o'u medrau'n llwyddiannus, yn enwedig eu medrau digidol. Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd dethol tasgau sy'n cyfateb i'w cam datblygu, ac maent yn ymateb yn effeithiol i adborth staff er mwyn datblygu eu dysgu ymhellach. Ar adegau, mae athrawon yn gwneud gordddefnydd o daflenni gwaith sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gyflawni a chyflwyno eu dysgu yn gynyddol annibynnol.

Mae'r pennaeth, arweinwyr a staff yn adnabod cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn dda. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at sicrhau bod staff yn datblygu'r ddarpariaeth yn fwriadus er mwyn cefnogi'r disgyblion i gyflawni'n gyson yn eu dysgu.

Argymhellion

A1 Sicrhau bod athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu holl fedrau mewn ystod gyfoethog ac eang o brofiadau dysgu

A2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni a chyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol trwy leihau'r defnydd o daflenni gwaith

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion tua'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygiad. Mae eu medrau llafar Cymraeg islaw'r hyn a ddisgwylir gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn newydd i'r Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a'r disgyblion sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim, hefyd yn gwneud cynnydd cadarn.

Ar draws yr ysgol, mae medrau gwrando a siarad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n aeddfed ar ei gilydd ac ar oedolion, ac yn datblygu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. Wrth i ddisgyblion aeddfedu, maent yn sgwrsio gyda chywirdeb da, gan ymateb i ddisgwyliadau gwahanol dasgau'n llwyddiannus, er enghraifft, wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 drafod beth yw'r pennawd gorau ar gyfer erthygl papur newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn trafod yn feddylgar gan fynegi barn yn effeithiol, fel wrth sgwrsio am ba gamp Olympaidd sy'n apelio fwyaf atynt.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a geiriau unsill cyfarwydd, ac yn darllen brawddegau syml yn dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau er mwyn dehongli testunau sy'n gynyddol ymestynnol. Maent yn talu sylw priodol i amrywiaeth o atalnodi, ac yn datblygu rhuglder wrth ddarllen gwahanol destunau. Mae medrau darllen llawer o'r disgyblion hynaf yn parhau i ddatblygu'n gadarn yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth o wahanol destunau ffeithiol yn hyderus. Erbyn brig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn darllen ystod estynedig o destunau. Maent yn sgwrsio'n hyderus am eu hoff awduron gan egluro pam y maent yn apelio atynt.

Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a'r seiniau cysylltiedig, gan adeiladu geiriau unsill cyfarwydd yn hyderus. Maent yn cydweithio â phartner er mwyn gosod geiriau gyda'i gilydd i greu brawddegau syml, a'u darllen i'w ffrindiau yn y grŵp. Erbyn pen uchaf cyfnod y dysgu sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gynyddol hyderus mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn arddangos dealltwriaeth gadarn o atalnodi ac yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Erbyn brig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus mewn amrywiaeth dda o gyd-destunau creadigol a ffeithiol. Er enghraifft, maent yn creu darnau perswadiol effeithiol sy'n cymharu bywydau dinasyddion Cymru a'r India. Mae llawer yn mynegi eu hunain yn feddylgar wrth drafod a ddylai dynion a menywod gystadlu yn erbyn ei gilydd yn y gemau Olympaidd.

Mae medrau rhif, siâp a data y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn ymateb yn bwrpasol i gyfleoedd i gymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau lleol. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth meithrin a derbyn yn creu graffiau yn amlygu faint o ddisgyblion y dosbarth sy'n byw yn y pentrefi cyfagos. Ym Mlwyddyn 1 a 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos adnabyddiaeth gadarn o nodiant cerddorol,

gan greu brawddegau a'u dehongli gan adnabod curiadau o wahanol hyd. Mae'r disgyblion hynaf yn parhau i ddatblygu medrau rhif cadarn, gyda disgyblion ym Mlwyddyn 3 a 4, er enghraifft, yn dysgu ystyr y pwynt degol wrth graffu ar amseroedd rhedwyr ras y 100m. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cymhwysu'u medrau'n llwyddiannus, sy'n cynnwys craffu ar gyfraddau ailgylchu deunydd gwastraff awdurdodau lleol Cymru.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn o oedran ifanc. Maent yn defnyddio offer yn effeithiol i atgyfnerthu eu medrau mewn gwahanol gyd-destunau yn fwriadus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn magu hyder wrth ddefnyddio apiau'n hyderus er mwyn recordio eu hunain yn gwneud cyflwyniadau yn yr ardal chwarae rôl. Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn defnyddio meddalwedd penodol yn hynod llwyddiannus i greu animeiddiad sy'n dangos effaith llygredd ar fywyd y môr. Erbyn brig yr ysgol, mae'r disgyblion yn defnyddio taenlenni'n llwyddiannus, er enghraifft wrth gynnwys fformiwlâu i ddod o hyd i wahanol gyfansymiau arian tros gyfres o flynyddoedd. Mae medrau digidol y disgyblion yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn hynod effeithiol gan wneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn gyson. Er enghraifft, maent wrth eu boddau'n chwarae'n gyda deunyddiau ac offer sydd wedi eu lleoli ar draws ardaloedd y ddarpariaeth. Mae hyn yn adeiladu eu hyder yn llwyddiannus ac maent yn cydweithio'n hapus â'u cymheiriaid wrth ystyried sut i adeiladu person allan o ddeunydd ailgylchu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda, er enghraifft wrth nyddu darnau o ddefnydd trwy flychau mewn pren i greu pabell. Maent yn datblygu eu medrau cydbwysu'n effeithiol wrth reoli beiciau yn ardaloedd allanol eang yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion wrth eu boddau'n canu, yn arbennig yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen. Mae hyn yn annog eu datblygiad creadigol a'u medrau llafar yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cynhyrchu amrediad deniadol o waith celf gan arddangos ymwybyddiaeth da o liw, ffurf a gwead, er enghraifft wrth efelychu arlunwyr Cymreig cyfoes.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi eu bod yn cael eu parchu. Mae ganddynt dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd aros yn ddiogel ar lein. Mae ethos ofalgar a chynhwysol yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu cyfoedion wrth gyflawni eu tasgau ac wrth chwarae yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cynnydd ac yn mwynhau perthynas adeiladol a chefnogol â staff a'u ffrindiau ar draws y dosbarthiadau. Amlygir hyn yn arbennig o dda yn ystod sesiynau cyd-ddarllen rheolaidd lle mae'r disgyblion hynaf yn darllen gyda'r disgyblion ieuengaf. Mae llawer o'r ddisgyblion hynaf yn nodi bod y gwaith hwn yn hyrwyddo eu lles yn effeithiol, ac yn cynyddu eu hyder wrth ddarllen. Mae llawer o ddisgyblion y dysgu sylfaen yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn adeiladu perthynas agos a chefnogol wrth fwynhau cydweithio.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol cadarn ar fynediad i'r dosbarth meithrin a derbyn. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i gyfleoedd i dreulio amser yn yr ardaloedd dysgu gan ddatblygu annibyniaeth a hyder, gyda hyn yn cyfrannu'n gadarn at hyrwyddo eu lles yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n iach, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod tasgau ac amseroedd egwyl. Yn ogystal, mae llawer yn cael boddhad wrth gyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn timau sy'n cynrychioli'r ysgol mewn chwaraeon lleol a rhanbarthol.

Mae bron bob disgybl yn canolbwyntio'n arbennig o dda yn ystod gweithgareddau dysgu ac yn dyfalbarhau'n gyson yn eu dysgu. Maent yn cydweithio'n aeddfed, er enghraifft wrth i'r disgyblion ieuengaf rollo teiars ar draws yr ardal allanol, ac wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 chwilio am gliwiau ar gyfer cwis y gemau Olympaidd. Pan mae tasgau yn heriol iddynt, mae'r disgyblion yn cynnal meddylfryd cadarnhaol ac yn dyfalbarhau'n ddygn er mwyn llwyddo.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn aeddfed am y cyfleoedd maent yn eu cael i rannu syniadau am wahanol themâu. Maent yn ymfalchio yn eu cyfraniadau ac yn teimlo bod athrawon yn ystyried eu hawgrymiadau a'u cynnwys yn y cynlluniau ar gyfer gweithgareddau'r dosbarth. Mae'r disgyblion yn parchu cyfraniadau eu cyfoedion mewn gweithgareddau, ac yn ymateb yn aeddfed i adborth a dderbynnir gan ffrind neu oedolyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau arwain yn ystod gweithgareddau wrth gydweithio a rhannu syniadau â'u cyfoedion. Maent yn gwneud dewisiadau doeth am yr her yn ystod tasgau, ac mae llawer yn aeddfed wrth egluro pam y maent yn dewis yr her arbennig honno. Yn ogystal, mae disgyblion yn cynrychioli eu dosbarthiadau ar gynghorau fel y cyngor ysgol, y cyngor eco a'r cyngor lles. Mae'r cynghorau hyn yn cyflawni rôl bwysig; er enghraifft, mae'r cyngor eco yn cynnal trefniadau'r ysgol ar gyfer ailgylchu gwahanol ddeunyddiau, ac mae'r cyngor ysgol wedi cynnal sioe er mwyn codi arian at achosion da.

Mae agweddau'r disgyblion tuag at eu dysgu yn gryfder nodedig. Mae'r rhan fwyaf yn cynnal diddordeb gan ganolbwyntio'n dda iawn am gyfnodau estynedig. Maent yn ymroi'n llwyr i'w tasgau ac yn cydweithio'n aeddfed. Pan fyddant yn wynebu heriau yn eu dysgu, mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn adeiladol ac yn rhannu eu pryderon gyda ffrind neu oedolyn, pan fo angen. Mae disgyblion yn cael eu cymell gan drefniadau gwobrwyo ac anogaeth y staff, ac yn falch o'u llwyddiannau. Ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, mae eu hymddygiad yn rhagorol.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n cynnig amrywiaeth eang o brofiadau cyfoethog, gan ddiwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol. Maent yn talu sylw i ddiddordebau'r disgyblion wrth gynllunio themâu, gan sicrhau cydbwysedd da o brofiadau sy'n cymell y disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft, derbyniodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 lythyr wedi ei ysgrifennu yn Ffrangeg yn gofyn am eu cymorth i ddatblygu byrbryd ar gyfer athletwyr y gemau Olympaidd. Roedd hyn yn datblygu eu chwilfrydedd a'u dealltwriaeth o berthynas geirfa'r Gymraeg, y Saesneg a'r Ffrangeg, yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn ymgymryd â rolau arweiniol wrth ymateb i ofynion meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm, gan gydweithio'n

gydwybodol i sicrhau amrediad cyfoethog o brofiadau dysgu ar gyfer y disgyblion. Er hyn, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio'n ddigon bwriadus er mwyn sicrhau bod holl fedrau'r disgyblion yn cael eu datblygu'n llawn.

Mae athrawon yn ymateb i anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn fuddiol ac yn darparu profiadau dysgu difyr iddynt. Maent yn datblygu gwybodaeth a medrau disgyblion yn effeithiol, er enghraifft wrth ddatblygu dealltwriaeth o gostau ac elw trwy brosiect mentergarwch gwerthu cynnyrch afalau gyda'r disgyblion hynaf. Mae'r athrawon yn defnyddio adnoddau'n fedrus er mwyn hyrwyddo medrau llythrennedd cynnar y disgyblion ieuengaf. Er enghraifft, maent yn arddangos enwau'r disgyblion yn eu tro ar y bwrdd gwyn mawr er mwyn i'r disgyblion ddarllen eu henw a chynnig ateb neu sylw.

Mae defnydd athrawon o rigymau traddodiadol a chaneuon cyfoes y dysgu sylfaen yn atgyfnerthu medrau llafar y disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu medrau digidol a'u cymhwyso'n effeithiol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae'r defnydd o adnoddau digidol i hyrwyddo medrau ehangach y disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dealltwriaeth o amser wrth godio ceir i ddilyn trywydd ar fap.

Mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd dysgu, tu mewn a thu allan i adeilad yr ysgol. Yn y dysgu sylfaen, maent yn cyfoethogi'r ddarpariaeth trwy ychwanegu adnoddau sy'n datblygu chwilfrydedd ac annibyniaeth y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n llwyr yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd da. Mae gan athrawon ddisgwyliaid uchel, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cydweithio'n aeddfed. Mae'r athrawon yn arddel iaith raenus yn effeithiol ac yn cefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg llafar yn gyson. Mae'r cymorthyddion dysgu yn cydweithio'n bwrpasol ag athrawon i gefnogi'r disgyblion wrth eu gwaith.

Mae cyflwyniadau athrawon yn fyrlymus ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn fuddiol. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n effeithiol wrth annog disgyblion i adalw eu dysgu blaenorol. Mae'r staff yn sicrhau bod eu dosbarthiadau'n fannau ysgogol a difyr lle gall disgyblion fwynhau dysgu. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddedhol yr her briodol mewn gweithgareddau yn hyrwyddo eu dysgu a'u hannibyniaeth yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae llawer yn dyfalbarhau'n dda â'u gweithgareddau. Er hyn, mae gordefnydd o dafenni gwaith gan athrawon ar adegau yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gyflawni a chyflwyno eu dysgu yn gynyddol annibynnol.

Mae staff yn cynllunio gweithgareddau dysgu diddorol sy'n adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru a'r byd ehangach. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd cyfoethog i disgyblion ddysgu am hanes a phrofiadau cymunedau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn ymwybodol o fis Hanes Pobl Ddu ac wedi astudio hanes yr ofodwraig ddu gyntaf o'r Unol Daleithiau. Mae staff yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o amrywiaeth o fewn teuluoedd yn briodol gan gefnogi eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwerthfawrogi gwahaniaethau o bob math.

Mae staff yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd a deilliannau dysgu'r disgyblion yn addas i adnabod cryfderau a meysydd priodol i'w cefnogi i ddatblygu eu dysgu ymhellach. Mae hyn yn arwain at gyflwyno cefnogaeth ychwanegol, lle bo'n briodol. Mae athrawon yn defnyddio'u hadnabyddiaeth o gynnydd disgyblion wrth ddarparu tasgau dysgu pwrpasol. Maent yn cynnig adborth effeithiol i ddisgyblion a sylwadau adeiladol sy'n cyfeirio at gamau llwyddiant eu dysgu.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn hafan gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn effeithiol. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn gryfder amlwg. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghwrteisi naturiol disgyblion ac agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf ohonynt at eu dysgu. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion sydd ag ADY yn cael cefnogaeth dda sy'n eu cefnogi i ymgysylltu'n llwyddiannus â'u dysgu a mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol ac yn cydweithio'n fwriadus gyda disgyblion i ddatblygu dulliau hunanreolaeth sy'n eu galluogi i adnabod a rheoli eu hemosiynau. Mae trefniadau fel datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i gynnal perthnasoedd cadarnhaol a pharchu eraill yn sicrhau bod ymddygiad y disgyblion yn ardderchog.

Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol i fonitro ac olrhain cynnydd a lles disgyblion, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag ADY. Mae staff yn adnabod anghenion penodol disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth addas iddynt. O dan arweiniad pwrpasol y cydlynedd ADY, mae cymorthyddion yn cefnogi'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau a rhaglenni cefnogi addas i wella lles disgyblion a datblygu eu medrau dysgu sylfaenol yn fwriadus. Mae staff yn cynnal perthynas waith agos â theuluoedd y disgyblion ac yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol arbenigol, lle bo'n briodol, i'w cynorthwyo. O ganlyniad i'r gefnogaeth a'r trefniadau i werthuso'r ddarpariaeth yn gyson, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu iechyd a ffitrwydd disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u cynnydd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i drafod pwysigrwydd deiet cytbwys a rhannu eu teimladau a'u gofidiau ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae'n cydweithio'n effeithiol â phartneriaid yn y sector cyhoeddus, fel yr heddlu a'r nyrs ysgol, i gefnogi dysgu a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am y gymuned leol a'r byd ehangach. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cydwybodol ac ystyrlon. Mae staff a disgyblion yn trafod hawliau plant a phwysigrwydd trin pawb yn barchus. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion doeth sy'n awyddus i gymryd rhan mewn digwyddiadau i godi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae staff yn atgyfnerthu gwerthoedd ysbrydol a chymdeithasol cadarnhaol i ddisgyblion yn effeithiol mewn gweithgareddau dysgu a sesiynau myfyrio ar y cyd. Mae agweddau moesol a chydarddoldeb yn treiddio'n effeithiol trwy bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol, gan atgyfnerthu'r diwylliant cynhwysol yn dda. Mae

gweithgareddau dysgu yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion corfforol pobl eraill yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 gymryd rhan mewn gweithgareddau Paralympaidd sy'n datblygu eu dealltwriaeth o brofiad pobl sy'n wynebu gwahanol heriau corfforol.

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion i ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfrannu at syniadau i wella agweddau o fywyd yr ysgol. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wneud penderfyniadau pwysig am eu bywyd ysgol, er enghraifft wrth drafod gyda'r pwyllgor rhieni adnoddau maent yn dymuno eu gweld yn yr ardal allanol. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu medrau arwain wrth drefnu digwyddiadau yn y gymuned, gan gynnwys dathliad Gŵyl Ddewi a'r ffair haf.

Darperir cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn a dysgu am gredoau eraill. Enghreifftiau dda o hyn yw'r cyfleoedd mae athrawon yn eu darparu i ddisgyblion astudio'r gwahaniaeth rhwng gwyliau crefyddol Diwali a'r Pasg, dysgu am hanes Dewi Sant ac am arwyddocâd pum piler Islam. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch at draddodiadau a chrefyddau eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau creadigol amrywiol sy'n cynnwys canu, dawnsio a pherfformio'n gyhoeddus a chystadlu yng nghystadlaethau celf a chrefft yr Urdd. Mae staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau lleol. Mae hyn yn meithrin eu hunanhyder a'u gallu mynegiannol, a'u gallu i weithio fel aelod o dîm trwy gymryd rhan mewn sioeau a chyngherddau yn y gymuned, a chystadlu yn eisteddfodau'r Urdd. Mae cyswllt â'r gymuned yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion berfformio a chymryd rhan mewn gwasanaethau, er enghraifft mewn gwasanaethau diolchgarwch yn yr ysgol a'r gwasanaeth Plygain yn eglwys Llwyngwritl.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn, ac mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau sy'n cyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol i hyrwyddo presenoldeb da a phwysigrwydd prydlondeb ymhlith disgyblion, gan gynnwys monitro cyfraddau'n ddyddiol. Mae staff yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni ac yn trefnu gweithgarwch dilynol wedi'i gefnogi gan yr awdurdod lleol, yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi codi'n ddiweddar.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ethos ofalgar a chefnogol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn datblygu i fod yn aelodau cydwybodol o gymuned yr ardal. Maent yn gwireddu arwyddair yr ysgol, sef 'Dysgu heddiw er mwyn yfory', yn llwyddiannus, ac yn meithrin gwerthoedd sy'n ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr hyderus a iach sy'n ymfalchïo yn eu cymuned lleol a'u diwylliant cenedlaethol.

Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, staff a disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu tîm gweithgar a chefnogol, ac i hyrwyddo lles staff mewn modd ymarferol. Mae staff yn arddel gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at wella'r ddarpariaeth a sicrhau bod cydweithio effeithiol yn rhan allweddol o drefniadau'r ysgol.

Mae gweithdrefnau arweinyddiaeth, sydd wedi'u harwain yn briodol dan ofal y pennaeth, yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion, yn ogystal â'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau a'r ardaloedd dysgu ehangach. Mae arweinwyr a staff yn cynllunio'n addas i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gyflwyno egwyddorion y cwricwlwm a gweithredu elfennau allweddol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gan athrawon gyfrifoldeb am feysydd dysgu a phrofiad penodol sy'n dechrau dyfnhau eu dealltwriaeth o'r gofynion a chyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r cymorthyddion yn aelodau allweddol o dîm yr ysgol sy'n cyfrannu'n fwriadus at wella cynnydd yn nysgu'r disgyblion, eu lles a'u medrau cymdeithasol. Mae staff yn hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn fwriadus gan hybu balchder disgyblion yn eu hiaith a'u treftadaeth.

Mae blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella wedi'u seilio ar amrediad priodol o dystiolaeth uniongyrchol, ac mae dealltwriaeth y staff ohonynt yn gadarn. Mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu i adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella ac adnabod camau i'w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad o gynnydd a deilliannau'r disgyblion, a chyfleoedd synhwyrol i graffu ar waith ac arsylwi ar sesiynau dysgu. O ganlyniad, mae'r pennaeth a staff yn adnabod eu hysgol yn dda ac yn mynd i'r afael â llawer o'r gwelliannau'n fwriadus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn derbyn ac ystyried gwybodaeth ddefnyddiol am effaith gweithdrefnau gwella'r ysgol ar y ddarpariaeth ac am gynnydd a lles disgyblion. Mae cyfleoedd priodol iddynt gymryd rhan weithredol yn y broses hunanwerthuso, gan gynnwys ymweld â dosbarthiadau, trafod gyda disgyblion a chraffu ar eu gwaith. Maent yn cwestiynu'r ysgol ynghylch materion addas, gan gynnwys agweddau o'r addysgu a'r dysgu sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn cydweithio â staff a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn ymfalchio yn y bartneriaeth weithredol sy'n datblygu ar draws ysgolion lleol y dalgylch.

Mae gwariant yn cysylltu'n fwriadus ag amcanion a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllideb yr ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi a chodi safonau disgyblion. Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau'r defnydd gorau ohono. Mae arweinwyr yn cynllunio gwariant y grant datblygu disgyblion yn synhwyrol, sy'n cynnwys darparu rhaglenni cefnogi wedi'u teilwra at anghenion dysgu ac emosiynol unigolion. Mae gan arweinwyr gynlluniau bwriadus i ddefnyddio grantiau i leihau effaith tlodi ar ddisgyblion a'u teuluoedd. Enghraifft dda o hyn yw cefnogi teuluoedd gyda chost teithiau ac ymweliadau preswyl.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i staff ddatblygu'n broffesiynol. Maent yn cynnwys cyfleoedd i gael hyfforddiant gwerthfawr am feysydd dysgu a phrofiad, i ddysgu am egwyddorion lles staff a disgyblion, a chael hyfforddiant ar agweddau penodol o ddulliau asesu ar gyfer dysgu. Mae trefniadau rheoli perfformiad athrawon yn briodol.

Mae gan yr ysgol berthynas weithredol â'r ysgol uwchradd leol ac ysgolion lleol y dalgylch, sy'n cynnwys darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gydweithio i rannu arferion da am feysydd dysgu'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae disgyblion yn elwa o brofiadau eang ar draws y meysydd dysgu.

Adroddiad ar Ysgol Craig Y Deryn
Gorffennaf 2024

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gadarn. Mae staff yn cyfathrebu'n briodol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau o ddydd i ddydd ac i rannu cyflawniadau a llwyddiannau eu plant. Mae'r rhieni yn falch iawn bod eu plant yn mynychu ysgol mor gefnogol sy'n gwbl ganolog i'r gymuned wledig hon.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru: [Estyn](#)

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2024